

# Y Casglwr

Rhif 80    Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn    Gwanwyn 2004

William Owen, Borth y Gest  
yn chwilio am

## Y Goron arall

**D**OES fawr er pan fûm yn traethu ar un o dudalennau'r *Casglwr* am y goron eisteddfodol hardd honno y dois o hyd iddi yn ei thrueni mewn canolfan hen bethau yn Llandeilo. Mae'n wir fod y goron honno erbyn hyn wedi ei hadfer i'w hen a'i phriod ogoniant, ond er holi a stilio a chwilio a chwalu mewn llawer man a llawer lle erys cryn ddirgelwch yn ei chylch o hyd. Dydw i ronyn nes i'r lan i ganfod pwy a'i henillodd hi'n wreiddiol ac ymhle y bu hynny na pha bryd chwaith. A dichon mai dirgelwch y rhawg a fydd y cyfan bellach.

Ond nid dyna hanes yr ail goron y bu gennyf ddi-ddordeb ynddi'n ddiweddar, hyd yn oed os methiant fu'r ymdrech i ddod yn berchen arni. Mewn ocsiwn a gynhaliwyd gan Gwmni Morgan Evans yn Y Gaerwen ar Ynys Môn ym mis Mehefin 2003 y daeth honno i'r fei, y tro cyntaf erioed gyda llaw ym mhrofiad y Cwmni hwnnw i grair o'r fath ymddangos ar y farchnad.

Nid ei bod cyn hardded â choron Llandeilo efallai, eto'i gyd yr oedd ei hanes yn llawer mwy hysbys. Roedd wedi ei llunio'n gelfydd mewn arian gan James Fenton Birmingham, y genhinen ar ei blaen a chyda'r geiriau EISTEDDFOD GORONOG LLANLLECHID HYDREF 23 1926 wedi eu hengrafio o'i chylch. Yn ychwanegol at hynny, wedyn, yr oedd yr wybodaeth ar gael mai'r enillydd gwreiddiol oedd un William Roberts o bentref Llanaelhaearn.

Braidd yn y niwl yr oedd yr arwerthwr wrth geisio clandro beth ddylai'r amcanbris fod canys fel y dywedwyd, nid oedd ef na'r Cwmni wedi tramwyo'r ffordd honno o'r blaen. 'Does gen i fawr o syniad a dweud y gwir plaen wrthy ch chi', tystiodd, 'ond hwyrach y byddem rywle o'i chwmpas hi pe meddyliem am ryw swm oddeutu tua chan punt a hanner'.

Roeddwn i'n lled obeithiol felly, ac fe benderfynais fynd amdani. Er mai ei cholli hi wnes i. Roedd rhywun arall yr un mor awyddus i roi ei bump arni ac i gynnig yn fy erbyn. Ac fe'i gwerthwyd i hwnnw am tua deugant a hanner. Dim ond gobeithio, meddwn i'n ddigon penisel wrthyf fy hun, fod pwy bynnag a'i cafodd yn ddyn y 'pethau' ac y rhydd o gartre' Cymraeg da iddi.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, tua Hydref i fod yn

fanwl, fe sylwais ar erthygl yn un o bapurau dyddiol y Gogledd a gyfeiriai at y ffaith fod cwmni Sotheby, ar y 18 o Dachwedd yn Olympia, yn cynnal eu harwerthiant flynyddol o bethau o ddi-ddordeb Cymreig. Yn eu plith, meddent, yr oedd hen goron eisteddfodol.



Y Goron arall.

Codwyd y derbynydd ffôn yn syth i archebu catalog. Fe gyrhaeddodd hwnnw gyda'r troad ac ar fy ngwir ar dudalennau 112 a 113 dyna lle'r oedd lluniau o EITEM RHIF: 251 – coron William Roberts, Llanaelhaearn a enillwyd yn Eisteddfod Peniel Llanllechid ar Hydref 23 1926.

Yn wir, er adeiladaeth unrhyw Philistiaid dienwaededig na chlywsant erioed sôn am y fath beth ag eisteddfod o'r blaen gwelsai pobl ddiwylliedig Sotheby yn dda i roi eglurhad i'r cyfan. *Eisteddfod, meddwyd, 'originate from meetings of bards, poets and musicians, the first*

*recorded as an actual contest being in 1176 at Cardigan Bay.' A dyna ni oll yn gwybod wedyn!*

Yr amcanbris erbyn hynny oedd rhywbeth rhwng £800 – £1,200. Tipyn o chwyddiant mewn cwta bedwar mis meddyliais!

Teimlwn fel fy nghicio fi fy hun! Pam, yn enw popeth, na fuaswn wedi mentro i gynnig mwy amdani yn Y Gaerwen? Roedd hi'n amlwg bellach mai deliwr proffesiynol mewn hen bethau oedd wedi ei phrynu hi yn arwerthiant Morgan Evans, aelod o frid nad yw byth yn torri cnau gweigion! Roedd y brawd, pwy bynnag ydoedd, wedi ei phrynu'n rhad gyda'r unig fwriad o'i hail werthu'n syth er mwyn gwneud elw bach sydyn a theidi o'r cyfan. Rwy'n ofni mai wedi dal gafael ynddi y buasai creadur meddal o'm bath i.

Wnes i ddim mentro cyn belled â Llundain i arwerthiant Sotheby ganol Tachwedd. Roedd yr amcanbris newydd ymhell o'm cyrraedd i, druan. Ar ben hynny rhagwelwn y byddai Cymry cefnog y brifddinas yno'n heidiau ac yn sathru ei gilydd yn eu hymryson i fod yn berchen arni.

Er nad felly yn union y digwyddodd pethau, chwaith. Syndod, dridiau'n ddiweddarach, oedd cael ar ddeall na werthwyd mohoni yn y diwedd ac iddi fethu â chyrraedd yr amcanbris.

(Parhad ar y dudalen ôl)